



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

<b>TEITL</b>	<b>Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>12 Chwefror 2019</b>
<b>GAN</b>	<b>Jeremy Miles AC, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit</b>

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd wrth y Senedd yn rheolaidd am faterion yn ymwneud â fframweithiau cyffredin a defnydd Llywodraeth y DU o bwerau dan adran 12 o'r Ddeddf (y 'pwerau rhewi') dros dro i gynnal cyfyngiadau cyfraith bresennol yr UE ar gymhwysedd datganoledig. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adroddiad o'r fath gael ei osod gerbron y Cynulliad o fewn un diwrnod i gael ei osod yn Senedd y DU.

**[Gosodwyd yr ail adroddiad o'r fath yn Senedd y DU ar 7 Chwefror.](#)**